



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Safonau a Meincnodau



Mai 2017

 **Cadw**

Datganiad o Ddiben

Lluniwyd y cofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru o ganlyniad i ddegawdau o waith ymchwil ac ymchwiliadau. Cânt eu cynnal a'u diweddarau er budd y cyhoedd, a'u defnyddio yn unol â safonau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Mae Safonau a Meincnodau* yn esbonio sut y dylid cyrraedd y safonau a'r meincnodau y caiff cofnodion amgylchedd hanesyddol eu mesur yn eu herbyn bob pum mlynedd.

Er i'r canllawiau hyn gael eu llunio yn benodol ar gyfer sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu cofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, byddant yn berthnasol i ystod o gyrff cyhoeddus a gwirfoddol eraill, a chyrrff eraill yn y sector preifat, yn ogystal ag unigolion â diddordeb yn amgylchedd hanesyddol Cymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ
Ffôn: 03000 256000
E-bost: cadw@wales.gsi.gov.uk

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2017
Digidol ISBN 978 1 4734 9515 9

OGL © Hawlfraint y Goron 2017, Llywodraeth Cymru, Cadw, ac eithrio lle y'i nodir. WG26919

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in Welsh.

Llun y clawr: Mae Castell Caeriw, Sir Benfro, yn heneb gofrestredig (© Hawlfraint y Goron (2017), Cadw, Llywodraeth Cymru).

Cynnwys

Cyflwyniad

1 Archwilio

2 Y Meincnodau

2.1 Cynnwys a Chwmpas

2.2 Safonau Data

2.3 Mynediad Cyhoeddus ac Ymgysylltu â'r
Cyhoedd

2.4 Darparu Gwasanaethau

Cyfeiriadau

Rhagor o Wybodaeth

Cysylltiadau

Cyflwyniad

Ffurfiwyd yr amgylchedd hanesyddol gan genedlaethau'r gorffennol. Mae'n amlygu ein gwreiddiau ac yn gwella ansawdd ein bywyd. Mae'r hanes o'n hamgylch yn rhoi i ni ymdeimlad o le ac yn ein helpu i ddiffinio ein hunain fel cenedl. Mae'r amgylchedd hanesyddol hefyd yn adnodd bregus a chyfyngedig na ellir ei adnewyddu. Mae ein huchelgais i warchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn effeithiol yn dibynnu ar argaeledd gwybodaeth awdurdodol o ansawdd da.

Mae'n rhaid i gofnodion amgylchedd hanesyddol gyrraedd safonau penodol, a nodir gan MIDAS Heritage¹ ac a ddatblygwyd i'w defnyddio yng Nghymru gan Weithgor Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol Cymru.² Mesurir y graddau y cynhelir y safonau drwy gydymffurfiaeth â'r meincnodau a gyhoeddir yn y canllawiau hyn. Caiff cydymffurfiaeth â'r meincnodau hyn ei hadolygu gan archwiliad bob pum mlynedd.

1. Archwilio

O dan ei drefniadau gweithredu gyda Llywodraeth Cymru, mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (y Comisiwn Brenhinol)³ yn gyfrifol am oruchwylio cofnodion sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Ar ran Gweinidogion Cymru, bydd y Comisiwn Brenhinol yn monitro safonau a lefelau gwasanaeth cofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru drwy gydgyssylltu a dilysu archwiliadau. Cynhelir archwiliadau ar gylch pum mlynedd er mwyn adolygu ansawdd data, dangos perfformiad yn erbyn pob un o'r dangosyddion penodedig a nodi anghenion ar gyfer gwella. Yn dilyn pob archwiliad, caiff cynlluniau pum mlynedd eu llunio er mwyn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwaith gwella, gan gynnwys ymateb i adborth gan ddefnyddwyr.

Ar ran Gweinidogion Cymru, bydd Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) yn cyhoeddi adroddiad cryno ar-lein ar yr archwiliad o gofnodion amgylchedd hanesyddol.⁴ Cyhoeddir crynodeb o bob archwiliad o gofnodion amgylchedd hanesyddol ar wefan yr ymddiriedolaeth archaeolegol berthnasol yng Nghymru.⁵

2. Y Meincnodau

Mae'r Comisiwn Brenhinol wedi datblygu cyfres o feincnodau y caiff pob cofnod amgylchedd hanesyddol ei asesu yn eu herbyn er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cyrraedd y safonau gofynnol. Er mwyn cyrraedd y safonau hyn, mae'n rhaid i gofnodion amgylchedd hanesyddol gyrraedd meincnodau mewn pedwar maes allweddol:

1. Cynnwys a chwmpas
2. Safonau data
3. Mynediad cyhoeddus ac ymgysylltu â'r cyhoedd
4. Darparu gwasanaeth

2.1 Cynnwys a Chwmpas ↵

Meincnod 1: Cofnod amgylchedd hanesyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am safleoedd, digwyddiadau a llyfryddiaethau sy'n cydymffurfio â gofynion adran 35 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 o ran cynnwys a chwmpas.⁶

Ni ddylai fod unrhyw derfynau amserol ar y wybodaeth a gofnodir mewn cofnod amgylchedd hanesyddol: dylai gynnwys data sy'n ymwneud â phob cyfnod, o'r gweithgarwch dynol cynharaf i'r presennol.

Diffinnir terfyn daearyddol cofnod amgylchedd hanesyddol gan ffin weinyddol yr awdurdod(au) lleol a gwmpesir ganddo. Yn achos awdurdodau lleol sy'n cynnwys arfordir, mae ymestyn cwmpas daearyddol cofnod amgylchedd hanesyddol tua'r môr y tu hwnt i'r ffin weinyddol yn debygol o gynyddu cyfraniad yr awdurdod at brosesau Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol a chynllunio morol, yn ogystal â rhoi darlun mwy cyflawn o orffennol yr ardal. Er enghraifft, er mwyn cofnodi'r effaith y mae erydu arfordirol neu gynydd yn lefel y môr, sydd i'w priodoli i newid yn yr hinsawdd nawr ac yn y gorffennol, ar dreftadaeth ddiwylliannol.

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn cynnal cofnod morwrol Cymru sy'n cynnwys cofnodion llongau ac awyrennau a gollwyd ar y môr, ac ardaloedd â photensial archaeolegol mawr. Mae'r cofnod hwn yn rhan o Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru⁷ ac mae ar gael i'w ddefnyddio gan yr awdurdod cynllunio lleol ac fe'i defnyddir gan Lywodraeth Cymru wrth wneud gwaith cynllunio ar y môr.

Mae angen rheoli cofnodion amgylchedd hanesyddol yn weithredol er mwyn iddynt adlewyrchu natur newidiol yr amgylchedd hanesyddol a'n dealltwriaeth o'i arwyddocâd yn briodol.⁸ Rhaid diweddarau cofnodion amgylchedd hanesyddol yn rheolaidd â gwybodaeth gywir, gan gynnwys:

- darganfyddiadau a dehongliadau newydd
- dynodiadau newydd a diwygiedig
- yr ymchwil a'r cyhoeddiadau diweddaraf
- cofnodion a chanlyniadau ymchwiliadau newydd
- newidiadau sylweddol i'r asedau hanesyddol a gofnodwyd eisoes.

Daw gwybodaeth o'r fath o amrywiaeth o ffynonellau, o ddarganfyddiadau ar hap gan aelodau o'r cyhoedd a darganfyddiadau annisgwyl gan berchenogion eiddo, datblygwyr a rheolwyr tir i ymchwiliadau systematig a wneir fel rhan o arolygon cenedlaethol, gwaith ymchwil a arweinir gan brifysgolion, gwaith maes a gwaith cofnodi a ariennir gan ddatblygwyr, prosiectau cymunedol neu ymchwil breifat.

Dylai trefniadau fod ar waith er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth am asedau treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol ehangach, a gynhyrchir fel rhan o'r broses gynllunio, ei hadneuo yn y cofnod amgylchedd hanesyddol priodol.

Dangosyddion

- a) Data a gaiff eu diweddarau'n rheolaidd.
- b) Ymdriniaeth gynhwysfawr o'r adnodd amgylchedd hanesyddol.
- c) System wybodaeth sy'n integreiddio data gofodol â gwybodaeth sy'n seiliedig ar destun, gwybodaeth ddigidol a gwybodaeth ar ffurf copi caled.
- d) Trefniadau ar gyfer cysylltu'n rheolaidd ag awdurdodau lleol, ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn adolygu eu cyfraniad at ddata cofnodion amgylchedd hanesyddol a'r defnydd a wnânt o'r data hynny.

Meincnod 2: Casgliad cyfeirio ategol o ddeunydd ar ffurf copi caled a deunydd digidol a gaiff ei gatalogio a'i reoli.

Mae angen i gofnod amgylchedd hanesyddol gadw casgliadau o ddeunyddiau cyfeirio cyhoeddiedig a chopiau gwaith o ddeunydd archifol sy'n ategu'r wybodaeth ddigidol a geir yn ei gronfa ddata. Mae gan gasgliadau cyfeirio ategol rôl werthfawr i'w chwarae o ran ateb ymholiadau. Dylid cadw a chynnal casgliadau o dan amodau amgylcheddol ac amodau storio priodol er mwyn eu diogelu yn yr hirdymor.

Dangosyddion

- a) Mae'n rhaid cadw a chynnal deunydd cyfeirio ategol o dan amodau amgylcheddol priodol.
- b) Mae'n rhaid croesfynegio'r catalog o gasgliadau cyfeirio â'r cofnod cyfrifiadurol.
- c) Dylid cynnwys rhaglen ar gyfer digideiddio deunydd sy'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan y cofnod amgylchedd hanesyddol mewn blaengynlluniau blynyddol lle y bo'n briodol.

Meincnod 3: Datganiad o bolisi ar gyfer adneuo deunydd archif sylfaenol.

Dylai deunydd archifol gwreiddiol a reolir neu a gaffaelir gan y cofnod amgylchedd hanesyddol (lle nad yw'r sawl sy'n cynhyrchu'r data yn gyfrifol am eu hadneuo a/neu nad oes unrhyw opsiynau gorfodi ar gael) gael ei adneuo gydag archif achrededig megis Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.⁹ Gall y Comisiwn Brenhinol gynnig cyngor a dylid ymgynghori ag ef yn gynnar lle y bo'n bosibl.

Dangosyddion

- a) Dylid adneuo deunydd archif sylfaenol (digidol ac annigidol) a reolir neu a gaffaelir gan y cofnod amgylchedd hanesyddol gydag archif achrededig megis Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.
- b) Bydd angen polisi gwaredu ar gyfer trosglwyddiadau fesul cam, gan gynnwys meini prawf amser.

2.2 Safonau Data ▾

Meincnod 4: Cydymffurfio â safonau data cenedlaethol.

Diffinnir safonau data cenedlaethol gan safon MIDAS Heritage ar gyfer cofnodion amgylchedd hanesyddol.¹⁰ Mae gwaith mynegeo data o safon uchel a bodolaeth data a mapiau gofodol da yn hanfodol er mwyn chwilio (a chroeschwilio) cofnod amgylchedd hanesyddol yn effeithiol. Mae'n hanfodol defnyddio terminoleg y cytunwyd arni yn genedlaethol. Cynhelir casgliad o 'eirfaeodd' terminoleg y cytunwyd amynt gan y Forum on Information Standards in Heritage (FISH).¹¹ Hon yw'r ffynhonnell ddiffiniol o wybodaeth am y derminoleg genedlaethol yr argymhellir y dylid ei defnyddio ar y cyd â safon MIDAS Heritage.

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu a chynnal safonau data yng Nghymru ac yn cynnull Gweithgor Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol Cymru, sy'n lledaenu arfer gorau. Disgwylir i bob cofnod amgylchedd hanesyddol gymryd rhan yn y grŵp hwn.

Dangosyddion

- a) Cydymffurfiaeth â safon sylfaenol MIDAS Heritage fel y'i cymhwysir yng Nghymru ac â therminoleg y cytunwyd arni gan Weithgor Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol Cymru.
- b) Cydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol ar gyfer data gofodol a chanllawiau ar arfer da o ran system gwybodaeth ddaearyddol (GIS).
- c) Llawlyfr cofnodi ategol sy'n nodi rheolau, protocolau a safonau ar gyfer mewnbynnu data.
- d) Cymryd rhan yng Ngweithgor Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol Cymru er mwyn datblygu, hyrwyddo a gweithredu safonau data yng Nghymru.

Meincnod 5: Rhannu a chyfnwid data â sefydliadau perthnasol eraill.

Dylai cofnodion amgylchedd hanesyddol allu darparu data digidol, a'u derbyn a'u hymgorffori, mewn fformatau y bwriedir iddynt helpu i gyfnwid data rhwng systemau gwybodaeth cydnaws priodol. Yn benodol, dylent allu rhyngweithredu â systemau GIS corfforaethol a systemau cynllunio cefn swyddfa'r awdurdodau cynllunio lleol a gwmpesir ganddynt.

Mae'r Fframwaith Strategol ar gyfer Cofnodion sy'n Ymwneud ag Amgylchedd Hanesyddol Cymru wedi'i sefydlu rhwng prif ddeiliaid y cofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.¹² Mae'r fframwaith yn seiliedig ar egwyddorion mynediad hawdd, rhannu data a chydweithredu er mwyn galluogi sefydliadau sy'n cymryd rhan i gael y wybodaeth sydd ei hangen er mwyn diwallu eu hanghenion busnes. Disgwylir i gofnodion amgylchedd hanesyddol gyfrannu at y camau gweithredu a'r blaenoriaethau a nodir yn y fframwaith.

Dangosyddion

- a) Rhaglen reolaidd o rannu a chyfnwid gwybodaeth â darparwyr gwybodaeth eraill yn sector yr amgylchedd hanesyddol o dan delerau'r Fframwaith Strategol ar gyfer Cofnodion sy'n Ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru.
- b) Darparu data yn rheolaidd i Cymru Hanesyddol¹³ mewn fformat y cytunwyd arno gyda'r Comisiwn Brenhinol.

2.3 Mynediad Cyhoeddus ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd ⇐

Meincnod 6: Cyfleusterau a ddarperir ar gyfer gwasanaethau defnyddwyr gan gynnwys ymholiadau gan ymwelwyr ac ymholiadau drwy'r post, dros y ffôn ac ar-lein.

Mae'n rhaid sicrhau bod cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio, darparu gwybodaeth mewn ymateb i geisiadau rhesymol, gan gynnwys am gopiâu o ran o'r cofnod, a rhoi cymorth er mwyn helpu pobl i gael gafael ar y wybodaeth a'i dehongli.

Fel arfer mae defnyddwyr cofnodion amgylchedd hanesyddol yn cynnwys datblygwyr, ymgynghorwyr cynllunio/amgylcheddol, ymgymrwyr statudol, perchenogion eiddo, rheolwyr tir, ffermwyr, ymchwilyr academiaidd, cymdeithasau lleol, haneswyr/archeolegwyr amatur, athrawon, myfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd â diddordeb — yn ogystal â gweithwyr proffesiynol ym maes yr amgylchedd hanesyddol sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd angen cyfryngu a dehongli cynnwys confensiynol a chynnwys ar-lein, gan ddibynnu ar y defnyddiwr.

Mae'n debyg y bydd gan bob defnyddiwr anghenion penodol, a fydd yn gofyn am lefelau gwahanol o gymorth ac amseroldeb mynediad amrywiol. Er mwyn sicrhau'r lefel uchaf bosibl o fynediad cyhoeddus, bydd angen amrywiaeth o drefniadau mynediad, gan gynnwys, er enghraifft, gyfleusterau ar gyfer ymwelwyr â'r cofnod amgylchedd hanesyddol ac ar gyfer ymdrin ag ymholiadau dros y ffôn ac ymholiadau electronig.

Dylai staff cofnod amgylchedd hanesyddol allu darparu gwasanaeth effeithiol i bob defnyddiwr, tra'n rheoli galwadau eraill ar eu hamser. Dylid cyhoeddi amser ymateb penodol ar gyfer ymholiadau a dylid ystyried mai hwn yw'r amser ymateb hwyaf a ganiateir.

Dylai gwasanaethau cofnodion amgylchedd hanesyddol fod ar gael ar-lein a dylai fod cyfeiriadau clir atynt ar wefannau perthnasol gan gynnwys rhai'r awdurdodau lleol a gwmpesir gan y gwasanaeth. Dylid hefyd sicrhau bod cynnwys perthnasol ar-lein hefyd ar gael drwy borth Cymru Hanesyddol a gynhelir gan y Comisiwn Brenhinol.¹⁴

Dangosyddion

- a) **Ardal waith sydd â chyfarpar priodol ac a reolir ar gyfer defnyddwyr, gan gynnwys goruchwyliaeth gan staff a all ymateb i ymholiadau.**
- b) **Trefniadau ar gyfer ymateb i ymholiadau gan ymwelwyr ac ymholiadau drwy'r post, dros y ffôn a thrwy e-bost o fewn amserau ymateb cyhoeddedig.**
- c) **Mynediad cyhoeddus am ddim ar-lein i fynegai safleoedd cronfa ddata'r cofnod amgylchedd hanesyddol o leiaf drwy'r rhyngwyd.**

Meincnod 7: Dull effeithiol o gael adborth gan ddefnyddwyr sy'n ymweld, defnyddwyr o bell a defnyddwyr ar-lein.

Dylai cofnodion amgylchedd hanesyddol fynd ati i wella'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i ddefnyddwyr drwy gasglu adborth a gweithredu arno yn gyson.

Dangosyddion

- a) Cofnod a gynhelir o ddefnyddwyr a'u mathau o ymholiadau sy'n deillio o ddefnydd lleol ac o bell (er enghraifft, defnydd o'r we, ymholiadau dros y ffôn ac ymweliadau gan ymchwilyr).
- b) Gwybodaeth a gesglir yn systematig am foddhad defnyddwyr.
- c) Dull o ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a defnyddwyr gwasanaethau er mwyn datblygu blaengynlluniau.

Meincnod 8: Gweithgareddau allgymorth sy'n seiliedig ar y cofnod amgylchedd hanesyddol er mwyn hyrwyddo gwybodaeth ehangach a defnydd o'r cofnod amgylchedd hanesyddol.

Dylai fod gan bob cofnod amgylchedd hanesyddol raglen allgymorth sy'n hyrwyddo'r cofnod amgylchedd hanesyddol ac yn annog pobl i wneud mwy o ddefnydd ohono. Mae hyn yn hanfodol i wneud y canlynol:

- nodi a thargeddu cynulleidfaoedd newydd ar gyfer y cofnod amgylchedd hanesyddol
- cadw ac annog defnyddwyr presennol cofnodion amgylchedd hanesyddol
- creu cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan yn y gwaith o gynnal a gwella'r cofnod amgylchedd hanesyddol
- datblygu synergeddau â gweithgareddau allgymorth a gyflawnir gan wasanaethau treftadaeth a gwasanaethau amgylcheddol eraill.

Dangosydd

- a) Datblygu a nodi gweithgareddau allgymorth er mwyn datblygu cynulleidfaoedd newydd a hyrwyddo defnydd ehangach o adnoddau yn seiliedig ar ymatebion defnyddwyr ac ymchwil i'r farchnad. Gallai hyn amrywio o fformatau cyfryngol a fformatau data newydd i arddangosfeydd, taflenni, llwybrau, diwrnodau agored, rhaglenni maes, ac ati.

2.4 Darparu Gwasanaethau ↗

Meincnod 9: Diffinnir polisiâu a gwasanaethau yn glir ac maent ar gael i ddefnyddwyr yn electronig ac ar ffurf copi caled.

Er mwyn rheoli cofnod amgylchedd hanesyddol yn effeithiol, mae'n rhaid i wasanaethau cofnodion amgylchedd hanesyddol ddatblygu, ac adolygu'n rheolaidd, polisiâu sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Deddf Cydraddoldeb 2010¹⁵
- Deddf Diogelu Data 1998¹⁶
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000¹⁷
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004¹⁸
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011¹⁹

Mae'n rhaid i polisiâu ar gyfer rheoli eu cofnod gydymffurfio â chyfraith hawlfraint y DU.²⁰ Yn gyffredinol, dylid sefydlu hawlfraint mewn perthynas â chynnwys cofnod amgylchedd hanesyddol a'i diogelu mewn ffordd sy'n sicrhau y bydd y cyhoedd yn gallu gwneud defnydd anghyfyngedig ohono yn y dyfodol.

Yn ymarferol, daw cynnwys o amrywiaeth eang o ffynonellau. Mae'n rhaid hysbysu'r rhai sy'n cyfrannu gwybodaeth y bydd ar gael i'r cyhoedd a dylai hawllidiad perchenogaeth hawlfraint gael ei lofnodi lle bynnag y bo'n bosibl.

Bydd angen i gofnodion amgylchedd berthnasol ystyried hawlfreintiau a thrwyddedau trydydd partïon sy'n ymwneud â deunydd a gaffaelir ganddynt er mwyn osgoi eu torri.

Dangosyddion

a) Polisiâu ysgrifenedig sy'n nodi'r lefelau o wasanaeth:

- y dibenion y cynhelir y cofnod amgylchedd hanesyddol ar eu cyfer
- cwmpas, cwmpas daeryddol a chynnwys adnoddau gwybodaeth sydd ar gael drwy'r gwasanaeth (digidol, annigidol a chasgliadau cyfeirio)
- y grwpiau proffesiynol a chyhoeddus y mae'n ceisio eu gwasanaethu
- mynediad i gofnodion, gan gynnwys trefniadau ar gyfer diwallu anghenion mathau gwahanol o ddefnyddiwr
- trefniadau ar gyfer adneuo deunyddiau archifol sylfaenol.

b) Cyhoeddi manylion am ddefnydd cyhoeddus, gan gynnwys oriau agor a pholisi codi tâl.

Meincnod 10: Staff i reoli'r cofnod amgylchedd hanesyddol a'i wasanaethau.

Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cofnodion amgylchedd hanesyddol gyflogi staff curadol cymwys ac ymroddedig â chymwysterau priodol i lunio eu cofnod a'i ddiweddarau, a chyfathrebu'n effeithiol â'r cynulleidfaoedd amrywiol sy'n ei ddefnyddio.

Dylai'r staff gynnwys personél â'r cymwysterau a'r profiad sy'n briodol i gasglu, curadu a dehongli amrywiaeth eang o adnoddau gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol a chyfryngu mynediad iddynt.

Mae'n hanfodol cynnal sgiliau staff cofnodion amgylchedd hanesyddol fel y gallant ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a gwasanaethau cynghori o ansawdd uchel. Felly, dylai datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a hyfforddiant fod ar gael iddynt.

Dangosyddion

- a) Dylai'r staff gynnwys personél â chymwysterau, profiad ac aelodaeth o gyrff proffesiynol perthnasol sy'n briodol i reoli amrywiaeth eang o adnoddau gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol.
- b) Cynllun hyfforddi i helpu staff i barhau i ddatblygu.

Meincnod 11: Cytundebau seilwaith a chymorth ar gyfer systemau hanfodol a chynllun parhad gwasanaeth.

Mae'n rhaid darparu digon o le er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y cofnod amgylcheddol hanesyddol o ddydd i ddydd, gan gynnwys darparu ar gyfer mynediad cyhoeddus ac ar gyfer storio adnoddau annigidol.

Mae'n rhaid rhoi gweithdrefnau storio data, diogelwch a rheoli risg cadarn ar waith er mwyn diogelu rhag ymddygiad maleisus, ei ganfod a'i gywiro fel y gall technoleg a gwasanaethau hanfodol wrthsefyll heriau aflonyddol megis ymosodiadau seibr. Dylai fod gan bob eitem o feddalwedd ddogfennaeth system glir a chyfredol, yn arbennig meddalwedd bwrpasol.

Dangosyddion

- a) Polisiâu ar gyfer diogelu systemau data a gwybodaeth sy'n lliniaru bygythiadau cymwys.
- b) Cynllun asesu risg a pharatoi ar gyfer argyfwng er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth.
- c) Trefniadau ar gyfer cefnogi systemau gwybodaeth.
- ch) Cofnod o wybodaeth a ddefnyddir gan ymholwyr sy'n ymweld ac ymholwyr o bell er mwyn nodi ac olrhain unrhyw achosion o gamddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan y cofnod amgylchedd hanesyddol.
- d) Adolygu cytundebau cymorth yn rheolaidd.

Cyfeiriadau ↗

- 1 MIDAS Heritage — The UK Historic Environment Data Standard, v1.1, Forum on Information Standards in Heritage, 2012 ↗
<https://www.historicengland.org.uk/images-books/publications/midas-heritage/>
- 2 Gweithgor Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol Cymru ↗
<https://cbhc.gov.uk/darganfod/y-fframwaith-strategol/>
- 3 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ↗
<https://cbhc.gov.uk/hafan/>
- 4 Adroddiad cryno ar yr archwiliad o gofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/historicenvironmentrecords/?skip=1&lang=cy>
- 5 Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys ↗
http://www.cpat.org.uk/w_index.htm
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
<http://www.dyfedarchaeology.org.uk>
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent
http://www.ggat.org.uk/index_cym.html
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
<http://www.heneb.co.uk>
- 6 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adran 35 ↗
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/section/35/enacted/welsh>
- 7 Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yw casgliad yr archif genedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru. Gellir ei weld ar ar-lein drwy Coflein. ↗
<http://www.coflein.gov.uk/cy/>
- 8 Am wybodaeth am arwyddocâd, gweler *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy>
- 9 Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yw casgliad yr archif genedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru. Gellir ei weld ar ar-lein drwy Coflein. ↗
<http://www.coflein.gov.uk/cy/>
- 10 MIDAS Heritage — The UK Historic Environment Data Standard, v1.1, Forum on Information Standards in Heritage, 2012 ↗
<https://www.historicengland.org.uk/images-books/publications/midas-heritage/>
- 11 Forum on Information Standards in Heritage (FISH) ↗
<http://heritage-standards.org.uk/>
- 12 Fframwaith Strategol ar gyfer Cofnodion yn Ymwneud ag Amgylchedd Hanesyddol Cymru ↗
<https://cbhc.gov.uk/darganfod/y-fframwaith-strategol/>

- 13 Mae Cymru Hanesyddol yn borth ar-lein i gofnodion amgylchedd hanesyddol cenedlaethol a rhanbarthol. ⇐
<http://cymruhanesyddol.gov.uk>
- 14 Cymru Hanesyddol ⇐
www.cymruhanesyddol.gov.uk
- 15 Deddf Cydraddoldeb 2010 ⇐
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents>
- 16 Deddf Diogelu Data 1998 ⇐
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/29/contents>
- 17 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ⇐
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/36/contents>
- 18 Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ⇐
<http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2004/3391/contents>
- 19 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ⇐
<http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh>
- 20 Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 ⇐
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1988/48/contents>

Rhagor o Wybodaeth ↗

Deddfwriaeth a Chanllawiau

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh>

Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio (Canllawiau Statudol)

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/records/v1/historicenvironmentrecords/?skip=1&lang=cy>

Safonau Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol

Forum on Information Standards in Heritage (FISH)

<http://heritage-standards.org.uk/>

MIDAS Heritage — the UK Historic Environment Data Standard v. 1.1, Forum on Information Standards in Heritage, 2012

<https://historicengland.org.uk/images-books/publications/midas-heritage/>

Fframwaith Strategol ar gyfer Cofnodion yn Ymwneud ag Amgylchedd Hanesyddol Cymru

<https://cbhc.gov.uk/darganfod/y-fframwaith-strategol/>

Cofnodion yng Nghymru

Archwilio — mae'n galluogi'r cyhoedd i weld y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff Archwilio ei gynnal a'i ategu â rhagor o wybodaeth a gedwir gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.

www.archwilio.org.uk

Cof Cymru — Cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau a warchodir, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Ychwanegir parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig at Cof Cymru yn ystod 2018.

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/records/v1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy>

Coflein — Y gronfa ddata ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.

<http://www.coflein.gov.uk/cy/>

Cynefin — mapiau degwm hanesyddol sy'n ffynhonnell ddefnyddiol iawn o wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol.

<http://cynefin.archiveswales.org.uk/cy/>

Cymru Hanesyddol — porth ar-lein i gofnodion amgylchedd hanesyddol cenedlaethol a rhanbarthol.

<http://cymruhanesyddol.gov.uk>

LANDMAP — yr adnodd sylfaenol ar-lein ynghylch tirwedd a gynhelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae setiau data LANDMAP hefyd yn cael eu cyhoeddi i'w lawrlwytho ar gyfer system gwybodaeth ddaearyddol ar

<http://lle.gov.wales/Catalogue?text=landmap&lang=cy>

Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Methodoleg LANDMAP: Canllawiau i Gymru. Tirwedd Hanesyddol
Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Methodoleg LANDMAP: Canllawiau i Gymru. Tirwedd Diwylliannol

Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru — mae'n cofnodi'r gwahanol ffurfiau a sillafiadau a ddefnyddir ar gyfer enwau nodweddion topograffig, cymunedau, prif ffyrdd, strwythurau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodir mewn ffynonellau sy'n rhagddyddio'r Rhyfel Byd Cyntaf.

<https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/>

Cofnodion Treftadaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Ar-lein — mae'n darparu gwybodaeth am asedau hanesyddol a leolir ar dirddaliadaethau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

<https://heritagerecords.nationaltrust.org.uk/>

Rhestr o Feysydd Brwydrau Hanesyddol yng Nghymru

<http://meysyddbrwydro.cbhc.gov.uk/>

Cysylltiadau ↗

Llywodraeth Cymru

Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)

Plas Carew, Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn. 03000 256000

cadw@cymru.gsi.gov.uk

www.cadw.cymru.gov.uk

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU

Ffôn. 01970 621200

nmr.wales@rcahmw.gov.uk

www.cbhc.gov.uk

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru

nmr.wales@rcahmw.gov.uk

<http://www.coflein.gov.uk/cy/>

Gallwch drefnu i ymweld â'r ystafell chwilio gyhoeddus yn Aberystwyth lle y bydd y staff yn egluro'r adnoddau sydd ar gael yng Nghofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth a chynllunio awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth awdurdodau Parciau Cenedlaethol drwy'r wefan berthnasol.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=4&LangID=2>

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

<http://www.eryri-npa.gov.uk/>

Cyfoeth Naturiol Cymru

d/o Y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP

Ffôn. 0300 065 3000

yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

<http://naturalresources.wales/?lang=cy>

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys

41 Stryd Lydan, Y Trallwng SY21 7RR

Ffôn. 01938 553670

trust@cpat.org.uk

http://www.cpat.org.uk/w_index.htm

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

The Corner House, 6 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo SA19 6AE

Tel. 01558 823121

info@dyfedarchaeology.org.uk

www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent

Heathfield House, Heathfield, Abertawe SA1 6EL

Ffôn. 01792 655208

enquiries@ggat.org.uk

http://www.ggat.org.uk/index_cym.html

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor LL57 2RT

Ffôn. 01248 352535

gat@heneb.co.uk

www.heneb.co.uk

Dolenni o'r ddogfen hon

Lle mae'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i wefnau ac adnoddau eraill a ddarperir gan drydydd partïon, darperir y dolenni hyn er gwybodaeth i chi yn unig. Ni ddylid ystyried bod rhestru dolenni yn gymeradwyaeth o unrhyw fath. Nid oes gan Cadw reolaeth dros gynnwys nac argaeledd tudalennau y ceir dolenni iddynt ac nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb amdanynt nac am unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o'ch defnydd ohonynt.